

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 28ain o FEDI, 2020

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Anwen Jones, , Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod dros 'Zoom'.

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Hefin Martin, Cyng. Dylan Jones

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Orffennaf, 2020.

MATERION FFYRDD YR ARDAL

Eglurodd y Cadeirydd y prif eitem ar yr agenda ydi'r pryder am gyflwr ffyrdd yr ardal yn enwedig y rhai yn Llanddoged ble mae gwyrriad yn ei le oherwydd gwaith yn cael ei gynnal ar y ffordd wrth Bron Derw, Llanrwst. Y Cyngor yn siomedig fod y Cyngor Conwy heb gario allan unrhyw waith ar y ffyrdd Fron Francis a Thyrpeg Uchaf cyn iddynt osod y gwyrriad.

Awgrymwyd cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd yng Nghonwy i gael cyfarfod ar y safleoedd i rannu pryderon sydd wedi cael codi gan y Cyngor Cymuned.

CEIR YN PARCIO AR Y FFORDD TYRPEG UCHAF GYFERBYN AR YSGOL

Pryder fod ceir yn parcio gyferbyn ar ysgol ac yn creu tagfeydd. Cyng. Austin Roberts wedi cysylltu gyda Mr William Roberts, Adran Priffyrdd Cyngor Conwy i osod 'cones' ar y manau sydd yn pery pryder.

MAES PARCIO GEGIN WEN, LLANDDOGED A MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN

Y clerc wedi anfon llythyr i Mr Elwyn Williams yn holi am amcangyfrif o faint fyddai y gost o gynnal a chadw y ddau safle maes parcio Gegin Wen a Chadiar Ifan Goch ond heb cael ymateb i'r llythyr eto.

CYNNAL A CHADW

1. Cerbydau trwm a tractors yn methu gweld am Llanrwst wrth ddod lawr o Maenan i ymuno ar A470 - angen torri y coed yn ol.
2. Angen torri y coed yn ol wrth Ffrith Uchaf, Maenan a torri brigau wrth Llidiart y Mynydd, Llanddoged.
3. Angen llenwi tyllau yn y ffordd Fron Francis, wrth fynedfa Pen Llan, allt Trwyn Swch, Ffordd Belmont, ac wrth ymyl Llidiart y mynydd, Llanddoged.

ARGLAWDD TAN LAN

Cyhoeddodd Cyng. Austin Roberts fod criw o ffermwyr lleol am lenwi y bwloch yn yr arglawdd Tan Lan Llanddoged yn dilyn difrod llifogydd yn ddiweddar.